CYFRES C4

# amserbeibl

Storïau o'r Beibl – Safon 2

Enw ____________________



DARLLENWCH
Mathew 27 1-2
ac 11-31



ADNOD
ALLWEDDOL
Mathew 27:22

*Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon.*

## Stori 2 Stori'r Pasg – Pilat

Yn fuan wedi Iddo gael Ei arestio, aeth y milwyr ag Iesu i sefyll Ei brawf gerbron Pilat. Hwn oedd y Rhaglaw Rhufeinig oedd yn rheoli gwlad yr Iddewon bryd hynny.



**C Llanwch y bylchau gyda'r llythrennau cywir.**


P __ __ __ __ fuodd yn holi Iesu.

Roedd ef yn Rh __ __ l __ __ Rh __ f __ __ n __ g.

3

Wedi i Pilat holi Iesu, roedd yn teimlo'n siŵr nad oedd Iesu yn euog. Doedd e ddim am anfon Iesu i farw ar groesbren, felly cynigiodd ryddhau un carcharor – am ei bod yn ŵyl y Pasg, sef un o ddathliadau pwysicaf yr Iddewon. Dywedodd y gallai'r Iddewon ddewis p'un fyddai'n cael ei ryddhau. Ai Iesu fyddai hwnnw neu ddyn arall oedd wedi gwneud llawer o bethau drwg?

**C Defnyddiwch yr wyddor luniau i gael gwybod enw'r carcharor arall.**




____ ____ ____ ____ ____ ____ ____ ____

4

Roedd Pilat yn gobeithio y bydden nhw'n dewis Iesu, ond wnaethon nhw ddim! Mynnodd y bobl y dylai Iesu farw, ac y dylai'r dyn arall gael ei ryddhau.


**C Rhowch (✓) wrth ymyl y brawddegau CYWIR a (✗) wrth ymyl y rhai ANGHYWIR:-**

1. Roedd Pilat yn sicr fod Iesu yn euog. ..........
2. Rhyddhaodd Pilat yr holl garcharorion dros ŵyl y Pasg ..........
3. Rhyddhawyd Barabbas. ..........
4. Roedd Barabbas wedi gwneud llawer o bethau drwg. ..........

4

Ceisiodd Pilat berswadio'r Iddewon i newid eu meddwl, ond doedden nhw ddim yn fodlon gwrando arno. Yna, gorchmynnodd y Rhaglaw y dylai Iesu gael Ei fflangellu (chwipio) ac wedyn Ei hongian ar groes.
Cyn Iddo gael Ei groeshoelio, bu'r milwyr yn greulon iawn wrth Iesu. Aethon nhw ati i'w wisgo mewn clogyn ysgarlad a dodi coron o ddrain am Ei ben. Buon nhw'n Ei watwar, yn poeri Arno ac yn Ei daro hefyd cyn Ei hoelio ar groes.


**C Llanwch y bylchau â'r geiriau cywir, a lliwiwch y lluniau.**



**Wedi i'r milwyr Ei wisgo mewn**


________________________________ ,

**a rhoi / ______________________ ,**



**am Ei ben,**

**hoeliwyd Iesu ar _______________.**



Wyddoch chi bod yr Arglwydd Iesu wedi marw ar y groes dros ein pechodau ni? Doedd dim un ffordd arall i ni gael maddeuant a'n paratoi ar gyfer y Nefoedd! Dioddefodd Iesu yn ein lle am Ei fod yn ein caru gymaint!



**cyfanswm**